| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **21, Hydref, 2010.** |
| **PWNC** | **SAFON GWYNEDD** |
| **PWRPAS** | **GOFYN I'R CYNGOR DDERBYN ARGYMHELLIAD Y PWYLLGOR SAFONAU A MABWYSIADU SAFON GWYNEDD** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Rôl y Pwyllgor Safonau ydi cynnal a hyrwyddo safonau ymddygiad uchel gan gynghorwyr a'u cynorthwyo i gadw at y Cod Ymddygiad. Fel rhan o'r gwaith yma bu'r pwyllgor yn ystyried pa fodd orau i gynorthwyo'r Cyngor i ddatrys man gwynion o gamymddwyn ymysg cynghorwyr sef y cwynion rheini nad ydynt yn ddigon difrifol i'w cyfeirio at yr Ombwdsmon fel materion sy'n groes i'r Cod Ymddygiad.

2. Ffrwyth y gwaith yma, a wnaed mewn ymgynghoriad hefo cynrychiolwyr y grwpiau gwleidyddol, yw'r ddogfen atodol - "Safon Gwynedd". Anfonwyd y ddogfen at holl aelodau'r Cyngor am ymgynghoriad ddechrau Medi ac adroddwyd yn ôl ar yr ymatebion i'r Pwyllgor Safonau. Yn dilyn trafodaeth, fe wnaeth y Pwyllgor argymell fod y Cyngor yn ei mabwysiadu.

3. Diben y Safon yw sefydlu pa ymddygiad sy'n dderbyniol rhwng aelodau a'i gilydd a pha ymddygiad sy'n annerbyniol. Ni fwriedir iddi gymryd lle'r Côd Ymddygiad. Yn hytrach bwriedir iddi weithio ochr yn ochr â'r Côd Ymddygiad a llenwi'r bwlch rhwng ymddygiad sydd efallai ddim ynddo'i hun yn ddifrifol, ond sydd eto yn creu annifyrrwch rhwng aelodau'r Cyngor, ac ymddygiad sy'n cyrraedd y trothwy, sydd ddigon difrifol i'r Ombwdsmon gynnal ymchwiliad iddo.

4. Pe bai'r Cyngor yn mabwysiadu "Safon Gwynedd", y bwriad wedyn fyddai i unrhyw dramgwydd gael ei drin dan drefn leol. Dilynir yr un drefn ag y mae'r Cyngor wedi ei mabwysiadu ar gyfer datrys cwynion rhwng swyddogion ac aelodau.

5. Dan y drefn honno mae tri cham, sef cyngor gan y Swyddog Monitro neu ei chynrychiolydd, cyfarfod anffurfiol rhwng yr aelodau i geisio cael datrysiad ac yna (os nad oes datrysiad) gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau. Byddai gan yr aelodau (y sawl sy'n gwneud cwyn a'r sawl sy'n destun cwyn) yr hawl i ymddangos gerbron y Pwyllgor i roi eu hachos. Byddai gwahoddiad iddynt hefyd gyflwyno unrhyw ddogfennau ymlaen llaw i'w dosbarthu hefo papurau'r pwyllgor.

6. Yn dilyn y gwrandawiad gall y Pwyllgor ddod i un o dri chasgliad sef:
   a) nad oes sail i'r honiad;
   b) bod sail i'r honiad ond nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach;
   c) bod sail i'r honiad ac y dylid ceryddu'r aelod.

**ARGYMHELLIAD.**

7. Gofynnir i'r Cyngor dderbyn argymhelliad y Pwyllgor Safonau a mabwysiadu "Safon Gwynedd" ynghyd a'r drefn leol ar gyfer datrys cwynion.

# SAFON GWYNEDD.

Mae’r ddogfen hon yn egluro’r safonau ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth gynghorwyr Cyngor Gwynedd wrth ymdrin â’i gilydd.  Dylid ei darllen ar y cyd hefo’r Côd Ymddygiad i Aelodau a’r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog. Mae’n ychwanegu at y dogfennau hynny ac nid tynnu oddi wrthynt.

Disgwylir i aelodau o Gyngor Gwynedd :-

Ymddygiad cyhoeddus:

- Ddangos parch i’w gilydd.
- Beidio â gwneud sylwadau dilornus personol am ei gilydd.
- Beidio â chyhoeddi unrhyw beth sarhaus am ei gilydd.
- Beidio â gwneud honiadau maleisus am ei gilydd.
- Beidio â chyhoeddi neu ledaenu gwybodaeth ffug am ei gilydd.
- Ddangos parch i gyfartaledd ac amrywiaeth.

Ymddygiad mewn cyfarfodydd:

- Ymddwyn yn urddasol yn y Siambr.
- Ddangos parch i’r Cadeirydd ac ufuddhau i’w ddyfarniadau.
- Beidio â defnyddio iaith anweddus na gwneud sylwadau hiliol neu sy’n rhagfarnu yn erbyn carfan o gymdeithas.

Cyfrinachedd:

- Gadw cyfrinachedd papurau eithriedig ac unrhyw ddogfennau eraill nad ydynt yn gyhoeddus.
- Beidio rhyddhau gwybodaeth gyfrinachol i’r wasg na’r cyhoedd.
- Ddychwelyd papurau cyfrinachol.
- Beidio defnyddio gwybodaeth gyfrinachol i ddibenion eraill nas bwriadwyd.

Aelodau lleol:

- Gydweithio gydag aelodau wardiau cyfagos er lles y gymdogaeth.
- Os yw’n ymdrin ag unrhyw fater sy’n ymwneud ag etholaeth aelod arall:
  - Egluro wrth unrhyw un sy’n gofyn cymorth nad ef/hi yw’r aelod lleol
  - Roi gwybod i’r aelod lleol oni bai y  byddai hynny yn torri cyfrinachedd